Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Talgarreg
# Talgarreg
# Llandysul
# Ceredigion
# SA44 4ER

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Talgarreg yng nghanol pentref Talgarreg ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed.

Mae'r ysgol mewn partneriaeth gyda thair ysgol gyfagos sy'n rhan o gynllun ad-drefnu addysg yng nghylch Llandysul. Bydd y bartneriaeth hon yn dod i ben ddiwedd tymor yr haf 2016 pan fydd yr ysgolion hyn yn cau ac yn ail agor fel ysgol ardal.

Ar hyn o bryd, mae 50 o ddisgyblion ar y gofrestr ac maent wedi'i threfnu'n ddau ddosbarth, un ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r llall ar gyfer cyfnod allweddol 2. Mae tua 10% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru.

Daw tua 90% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith y cartref. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol wedi adnabod bod tua 34% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref, 2009. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Mehefin, 1996.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Talgarreg yn 2015-2016 yw £4,047. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £7,464 a'r lleiafswm yw £3,069. Mae Ysgol Talgarreg yn yr 22ain safle o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- safonau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol
- bron bob un o'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn canolbwyntio'n ofalus am gyfnodau priodol
- safon ymddygiad bron bob un disgybl yn arbennig o uchel ac maent yn gwrtais at ei gilydd ac oedolion
- presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion yn dda
- ansawdd yr addysgu yn gryf ar draws yr ysgol
- athrawon yn defnyddio deilliannau'r broses asesu yn dda i olrhain cynnydd pob disgybl yn eu medrau ar draws y cwricwlwm

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau gwelliant parhaus
- systemau hunanarfarnu trwyadl wedi eu sefydlu'n gadarn
- gan lywodraethwyr wybodaeth drylwyr am gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella
- yr ysgol yn talu sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- nifer o bartneriaethau buddiol sydd yn cyfrannu'n effeithiol at godi safonau, cyfoethogi'r ddarpariaeth a chefnogi lles y disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi safonau sillafu disgyblion yn y Saesneg

A2 Sicrhau bod tasgau dysgu yn herio'r holl ddisgyblion yn gyson, yn enwedig y rhai mwy abl

A3 Ymestyn y cyfleoedd i athrawon rannu arfer dda tu hwnt i'r ardal a'r awdurdod leol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiadau'r disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf fedrau sy'n briodol i'w hoed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau llafar rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf fynegi barn yn glir ac maent yn cynnig rhesymau ac atebion synhwyrol iawn i gwestiynau. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando yn effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar dasgau am gyfnodau estynedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau pan fyddant yn siarad am eu gwaith yn y ddwy iaith. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion iaith naturiol a chyfoethog yn y Gymraeg ac, erbyn diwedd y cyfnod, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus iawn. Mae safonau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr aeddfed. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn effeithiol ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r llyfrau gosod. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus ar goedd yn y ddwy iaith gyda mynegiant addas ac maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testunau. Maent yn ymchwilio i wahanol lyfrau a ffynonellau i ddarganfod gwybodaeth am eu hoff awduron, fel T. Llew Jones.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol ac yn effeithiol at wahanol ddibenion ar draws y meysydd. Maent yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Mae medrau sillafu ac atalnodi y rhan fwyaf yn datblygu'n dda ac maent yn cyflwyno gwaith yn daclus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ôl eu gallu i ysgrifennu yn y ddwy iaith. Mae eu cyflwyniad a llawysgrifen yn dda iawn. Maent yn datblygu eu gallu yn llwyddiannus i ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith ar draws gwahanol bynciau. Fodd bynnag, mae safon sillafu lleiafrif o ddisgyblion yn y Saesneg yn anghyson ar draws cyfnod allweddol 2.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl ac ymchwilio yndda yn eu gwaith ar draws yr ysgol.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau bwyd am ddim yn cymharu'n ffafriol â'u cyfoedion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg ac maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio rhifau, tablau a diagramau syml i gofnodi gwybodaeth yn llwyddiannus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddatrys problemau rhif. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am werth lle i luosi a rhannu cyfan a degolion yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn casglu ac yn dadansoddi data yn effeithiol mewn amryw o graffiau gwahanol. Maent yn esbonio eu strategaethau pen yn dda ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod niferoedd bychan o ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn yn medru effeithio ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch, mae perfformiad y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol uwchlaw'r cyfartaledd mewn llythrennedd. Fodd bynnag, mae perfformiad braidd yn fwy amrywiol ar y deilliant disgwyliedig mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyffredinol uwchlaw'r cyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf. Ar y lefel uwch, mae perfformiad yn fwy amrywiol yn y Saesneg ac nid mor gryf â pherfformiad ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Lles: Da**

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes pryder ganddynt. Ar draws yr ysgol, mae safon ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn arbennig o dda ac maent yn gwrtais at ei gilydd ac oedolion. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta a byw yn iach ac maent yn mwynhau ystod o weithgareddau corfforol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed am eu gwaith ac yn canolbwyntio'n ofalus am gyfnodau priodol. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus i gyfeiriad eu dysgu, trwy gynllunio gweithgareddau eu hunain ac awgrymu themâu dosbarth. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn datblygu dealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella.

Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i dderbyn cyfrifoldebau ac mae rôl cyfeillion yr iard yn datblygu'n dda. Mae'r cyngor ysgol yn cynrychioli llais y disgyblion yn effeithiol. Mae'n cael ei werthfawrogi fel elfen bwysig o fywyd yr ysgol. Trwy gynllunio trwyadl at brosiect Sêl Sothach, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o fedrau bywyd a chymdeithasol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan flaenllaw mewn gweithgareddau cymunedol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu sgriptiau'r sioe Nadolig bob blwyddyn ac yn eu perfformio yn neuadd y pentref.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae lefelau presenoldeb wedi gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau eang a chynhwysfawr sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. Mae cynlluniau gwaith yn fanwl ac yn drylwyr iawn. Mae athrawon ac arweinwyr yn adolygu ac arfarnu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys gweithgareddau buddiol sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn defnyddio themâu addas fel cyfrwng i sbarduno diddordeb disgyblion yn effeithiol iawn ac mae'r disgyblion yn rhan o'r broses o ddewis themâu a thestunau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryf iawn yn yr ysgol. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr a chyson i gymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd ac eisteddfodau lleol er mwyn cyfoethogi eu profiadau. Mae'r cyfleoedd buddiol sydd gan ddisgyblion i ddysgu am hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru a'r ardal leol yn gryfder ac yn ganolog i waith a bywyd yr ysgol.

Darpara'r ysgol ystod helaeth o brofiadau i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r staff a'r pwyllgor eco yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac yn aelodau gweithgar o'r gymuned leol. Mae cysylltiadau buddiol gyda gwledydd eraill fel Kenya a Phatagonia. Caiff disgyblion gyfleoedd bwriadol i gasglu at elusennau, ailgylchu, defnyddio ynni yn ofalus a dysgu am nwyddau masnach deg. Mae hyn oll yn cael effaith gadarnhaol ar les a hunanhyder disgyblion ac yn codi eu hymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio'n drylwyr ac yn paratoi deunydd effeithiol ar gyfer eu gwersi. Mae cyflwyniadau athrawon ar ddechrau gwersi yn frwdfrydig ac maent yn defnyddio dulliau cwestiynu a holi treiddgar i sicrhau bod disgyblion yn deall testunau newydd a gwaith blaenorol. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm ac maent yn trosglwyddo gwybodaeth bynciol yn glir ac yn effeithiol. Mae'r berthynas glos rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn creu parch, cwrteisi ac awyrgylch gweithgar yn y dosbarthiadau. Mae'r cymorthyddion yn cyfrannu'n effeithiol at y dysgu ac yn cefnogi disgyblion yn llwyddiannus iawn. Yn yr ychydig iawn o wersi sy'n llai effeithiol, ar adegau nid oes digon o her i ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio deilliannau'r broses asesu yn dda i olrhain cynnydd pob disgybl yn eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n gadarn yn yr ysgol. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig adborth priodol iddynt ar sut i wella eu

dysgu. Maent yn rhannu meini prawf gyda’r disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig cyfleoedd addas i’r disgyblion ymateb i sylwadau. Mae disgyblion yn asesu eu gwaith a gwaith eu cyfoedion yn gyson. O ganlyniad, mae hyn yn galluogi disgyblion i ddeall eu dysgu eu hunain a’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae rhieni’n derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni’r gofynion yn llawn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar lle teimla’r disgyblion yn ddiogel. Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles y disgyblion yn dda ac yn pwysleisio pwysigrwydd iechyd corfforol yn gyson. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn gynhwysfawr ac mae staff yn hybu gwerthoedd yn seiliedig ar barch a charedigrwydd. Mae’r cysylltiadau agos iawn â’r capeli a’r eglwys leol yn cynnig profiadau gwerthfawr i’r disgyblion. Er enghraifft, maent yn astudio thema priodasau yn yr eglwys leol.

Mae'r ysgol yn gweithio’n llwyddiannus gyda nifer o asiantaethau a gwasanaethau arbenigol ac mae’r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad effeithiol i’r disgyblion a rhieni. Er enghraifft, mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni am nifer o wasanaethau a fyddai’n hybu dysgu yn y cartref.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae’r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn darparu’n briodol ar eu cyfer. Mae’r targedau clir yn y cynlluniau addysgol unigol yn seiliedig ar fewnbwn disgyblion a'u rhieni ac maent yn cael eu hadolygu'n dymhorol i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn effeithiol. Mae’r cymorthyddion yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at ddatblygiad y disgyblion hyn.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae staff yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o ofal, cynhwysiant a pherthyn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned deuluol, gynnes, sy’n annog disgyblion i ofalu am eraill ac i drin pobl eraill yn deg. Mae’r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac yn hybu cydraddoldeb yn effeithiol iawn.

Gwna’r ysgol ddefnydd llawn o’r adeiladau a’r safle. Mae’r arddangosfeydd atyniadol yn y dosbarthiadau a’r neuadd yn dathlu gorchestion y disgyblion yn briodol. Mae’r staff yn defnyddio’r neuadd yn greadigol fel dosbarth, ffreutur, llyfrgell ac ar gyfer cynnal gwasanaethau. Mae ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o fyd natur a’r amgylchedd yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o adnoddau sy’n cyfoethogi dysgu’r disgyblion yn effeithiol Mae’r adeilad a’r tir yn cael eu cynnal a’u cadw mewn cyflwr da ac i safon ddiogel a chadarn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'n darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn hyrwyddo gweledigaeth y pennaeth yn fedrus. Rhennir prif amcanion a gwerthoedd yr ysgol gyda'r llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion yn llwyddiannus ac maent i gyd yn cyfrannu iddynt. Mae gan arweinyddion ddisgwyliadau uchel ac mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n dda ar arfarnu effeithiolrwydd strategaethau'r ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae'r is-gadeirydd yn cynnal sesiynau hyfforddi mewnol ac yn arwain y llywodraethwyr trwy'r broses o ddadansoddi data a gosod targedau yn flynyddol. Mae mwyafrif y llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, er mwyn arsylwi gwersi a chraffu ar waith y disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn eu galluogi'n dda i ddwyn yr ysgol i gyfrif.

Mae'r ysgol yn talu sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gweithredu'n llwyddiannus ac mae cysondeb yn y defnydd o ddulliau asesu ar gyfer dysgu trwy'r ysgol. Mae cynlluniau dysgu ac addysgu yn cyfeirio'n briodol at ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dengys asesiadau'r athrawon bod y fframwaith yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol systemau hunanarfarnu trwyadl sydd wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn ystyried barn athrawon, cymorthyddion, disgyblion a rhieni yn llwyddiannus. Mae'r trefniadau hefyd yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys data perfformiad, arsylwadau dosbarth a chraffu ar lyfrau gwaith y disgyblion. Mae athrawon ac arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i dueddiadau perfformiad dros gyfnod ac, yn arbennig, perfformiad grwpiau gwahanol o ddisgyblion, er enghraifft y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r broses hunanarfarnu yn seiliedig ar raglen fonitro gadarn. Mae adroddiadau monitro'r athrawon a'r llywodraethwyr yn arfarnol, gan nodi cryfderau a'r camau nesaf ymlaen er mwyn sicrhau gwelliant. Mae arweinwyr a staff yr ysgol yn arfarnu effeithiolrwydd y broses hunanarfanu yn gyson er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Er enghraifft, o ganlyniad i'r broses monitro, mae asesu ar gyfer dysgu yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun gonest o'r ysgol. Ceir barn glir am gyrhaeddiad disgyblion a'r mannau lle mae angen gwelliant. Mae cyswllt agos iawn rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys targedau heriol a meintiol, costau a chamau gweithredu, gan nodi'r athrawon sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r cynllun datblygu blaenorol, gan gynnwys gwella medrau hunanasesu'r disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau buddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau, cyfoethogi'r ddarpariaeth a chefnogi lles y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth gadarn gyda'r rhieni. Mae rhieni'n sicrhau bod cronfa ariannol ar gyfer prynu adnoddau newydd ac ehangu cyfleoedd chwarae ar y buarth. Mae eu cyfraniad ariannol yn sylweddol ac wedi gwella llawer iawn o gyfleusterau ar gyfer eu plant. Er enghraifft, y rhieni gododd arian i adnewyddu toiledau'r disgyblion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned leol yn gryfder, a'r disgyblion yn ymfalchïo mewn bod yn rhan o gymuned bentrefol, Gymreig glos. Mae'r gymuned yn cefnogi holl weithgareddau'r ysgol trwy fynychu cyngherddau, gwrando ar ddarllenwyr a chynnal a chadw'r adeilad. Mae'r disgyblion yn defnyddio neuadd y pentref yn gyson ar gyfer amryw o weithgareddau, gan gynnwys gwersi gymnasteg. Mae'r bartneriaeth yn cyfrannu'n dda at wella safonau a lles y disgyblion.

Mae'r bartneriaeth gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol a'r awdurdod iechyd, fel y seicolegydd addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn cael effaith fuddiol ar ddatblygiad lles disgyblion.

Mae trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion o'r cylch meithrin wedi eu sefydlu'n gadarn. Yn yr un modd, mae cydweithio da rhwng yr ysgol a dwy ysgol uwchradd i sicrhau bod y trefniadau pontio yn paratoi'r disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer trosglwyddo i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng ysgolion y clwstwr i sicrhau cysondeb wrth safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae'r trefniadau wedi cyfrannu'n effeithiol tuag at greu portffolios priodol o waith disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff profiadol i gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae cymorthyddion dosbarth yn cyfrannu'n llwyddiannus at y dysgu a'r addysgu. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n dda. Yn ystod y cyfnodau hyn, mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd y cymorthyddion yn briodol i addysgu'r disgyblion mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm, fel dylunio a thechnoleg a chwaraeon. Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad proffesiynol staff, y cynlluniau datblygu a chyfundrefn rheoli perfformiad yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi bod yn rhan o gymunedau proffesiynol sy'n cynnig cyfleoedd da i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol. Er enghraifft, yn ddiweddar, bu'r ysgol yn rhan o gymuned broffesiynol i godi safonau sillafu Saesneg disgyblion, ond mae'n rhy gynnar eto i fesur effaith y gwaith ar gyrhaeddiad y disgyblion. Mae'r

ysgol hefyd yn cydweithio'n agos gydag ysgolion eraill sydd o dan ofalaeth y pennaeth.  Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i athrawon gyfnewid arfer dda gydag ysgolion eraill tu hwnt i'w hardal a'r awdurdod lleol.

Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn cadw trosolwg priodol ar y cyllid.  Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei wario'n effeithiol i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion.  Mae'r gefnogaeth hon yn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y medrau llythrennedd a rhifedd.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672298 - YSGOL GYMUNEDOL TALGARREG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 50 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 8 | * | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 87.5 | 100.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | * | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 100.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | * | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 62.5 | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | * | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 100.0 | * | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 62.5 | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 8 | * | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 75.0 | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672298 - YSGOL GYMUNEDOL TALGARREG**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 50 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 5 | * | 5 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | 5 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | 5 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | 80.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | 5 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | * | 5 | 6 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 24 | 23<br>96%<br>98% | 1<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 23 | 21<br>91%<br>92% | 2<br>9%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 24 | 21<br>88%<br>97% | 3<br>12%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 24 | 24<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 24 | 22<br>92%<br>96% | 2<br>8%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 23 | 20<br>87%<br>96% | 3<br>13%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 23 | 23<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 24 | 23<br>96%<br>98% | 1<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 24 | 21<br>88%<br>91% | 3<br>12%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 24 | 23<br>96%<br>95% | 1<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 23 | 19<br>83%<br>77% | 4<br>17%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 22 | 19<br>86%<br>84% | 3<br>14%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Emanuel | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mair Potter | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.